# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **8 GORFFENNAF 2010** |
| TEITL | **ADRODDIAD BLYNYDDOL "PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL" 2009/10** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **MYNEGI BARN ARCHWILIO MEWNOL AR YR AMGYLCHEDD REOLAETH GYFFREDINOL O FEWN YR AWDURDOD** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Fel "Pennaeth Archwilio Mewnol" Cyngor Gwynedd yn unol â gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig, mae gofyn arnaf i ddarparu sicrwydd i'r awdurdod ar y system gyflawn o reolaeth fewnol yn yr awdurdod. Wrth roi fy marn, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn llwyr. Y mwyaf y gall gwasanaeth archwilio mewnol ei ddarparu i'r Cyngor ydi sicrwydd rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.

1.2 Wrth asesu'r lefel sicrwydd i'w roi, rwyf wedi ystyried pob archwiliad sy'n berthnasol i 2009/10 ac unrhyw weithrediad dilynol parthed archwiliadau o'r cyfnod yma a chyfnodau blaenorol.

## 2. SICRWYDD CYFFREDINOL

**2.1 Yn fy marn i, mae gan Cyngor Gwynedd fframwaith gadarn o reolaeth fewnol er mwyn cynnig sicrwydd rhesymol parthed cyflawniad effeithiol ac effeithlon o amcanion y Cyngor, gan fod y camau a gymerwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol i sefydlu a cryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod argymhellion i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn foddhaol.**

### 2.2 Ystyriaethau

Er mwyn rhoi fy marn ar ddigonolrwydd y systemau rheolaeth fewnol, rwyf wedi ystyried y canlynol:

- Yn gyffredinol, canfuwyd rheolaeth fewnol dda o fewn pob un o wasanaethau'r Cyngor yn unigol.
- Ble canfuwyd gwendidau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol, cafodd y materion hyn eu cywiro gan swyddogion y Cyngor, neu fe dderbyniasont sylw gan y Pwyllgor Archwilio.
- Nid yw Archwilio Mewnol wedi dibynnu ar unrhyw waith gan gyrff archwilio allanol er mwyn dod i'r farn yn yr adroddiad yma.

## 3. GWAITH ARCHWILIO

### Cynllun Archwilio

3.1 Roedd 106 darn o waith wedi eu cynnwys yng nghynllun archwilio addasiedig terfynol 2009/10. Cafodd 101 o'r aseiniadau hyn eu cwblhau, sy'n cynrychioli 95.3% o'r cynllun. Y pump archwiliad na gafodd eu cyflawni oedd:

- Ysgol Y Berwyn *(Addysg)*
- Ysgol Coed Menai *(Addysg)*
- Fformiwlâu Cost Uned *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Cefnogaeth i Deuluoedd *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Gwasanaethau Plant - "referrals" a goruchwylio *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*

3.2 Mae rhestr o'r archwiliadau o gynllun 2009/10 sydd wedi cyfrannu at y farn a fynegir yn mharagraff 2.1 wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

3.3 Ble'n berthnasol, caiff adroddiadau archwiliad mewnol eu categoreiddio er mwyn rhoi barn archwilio gyffredinol ar amgylchedd reolaeth y system neu sefydliad benodol dan sylw.

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

3.4 Cafodd pob argymhelliad a gyflwynwyd o fewn yr adroddiadau eu gwneud er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol sydd yn lliniaru risgiau gweithredol, ac i sefydlu ymarfer da.

3.5 O'r 101 aseiniad yng nghynllun archwilio 2009/10 a gafodd eu cwblhau, dyfarnwyd y categorïau barn canlynol:

| Categori Barn | Nifer archwiliadau |
|---|---:|
| A | 8 |
| B | 57 |
| C | 10 |
| CH | 0 |
| Dim Categori | 26 |
| **Cyfanswm** | **101** |

3.6 O'r adroddiadau perthnasol i gynllun archwilio 2009/10 a dderbyniodd gatergori Barn 'A' i 'CH', derbyniodd 87% ohonynt farn 'A' neu 'B', sy'n dangos gwelliant cynyddol yn erbyn ffigwr cyfatebol o 80% ar gyfer cynllun 2008/09 a 70% yn 2007/08.

3.7 Caiff crynodeb gweithredol adroddiadau llawn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar ôl i'r adroddiad terfynol gael ei gytuno gyda'r cleient a'i ryddhau. Lle caiff memorandwm ei anfon yn hytrach nag adroddiad llawn, a lle nad oes categori barn, mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn rhestr o'r archwiliadau perthnasol. Yr unig eithriad i hyn gyda gwaith o'r cynllun yw gwaith sy'n cael ei gynnal yn barhaus trwy'r flwyddyn, megis adolygiadau o gyfrifon terfynol contractau.

3.8 Mae'r tabl isod yn dangos pa gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio sydd wedi / a fydd yn derbyn manylion yr archwiliadau o gynllun 2009/10. Mae dyddiadau cyfarfodydd perthnasol y Pwyllgor Archwilio hefyd wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

| **Dyddiad Rhyddhau'r Adroddiad / Memorandwm Terfynol** | **Dyddiad Adrodd i'r Pwyllgor Archwilio** |
|---|---|
| 1 Ebrill 2009 – 31 Mai 2009 | 29 Mehefin 2009 |
| 1 Mehefin 2009 – 31 Awst 2009 | 28 Medi 2009 |
| 1 Medi 2009 – 30 Tachwedd 2009 | 14 Ionawr 2010 |
| 1 Rhagfyr 2009 – 31 Ionawr 2010 | 11 Mawrth 2010 |
| 1 Chwefror 2010 – 31 Mai 2010 | 8 Gorffennaf 2010 |
| 1 Mehefin 2010 – 30 Mehefin 2010 | 27 Medi 2010 |

**Addasiadau i'r Cynllun**

3.9 Adroddwyd ar addasiadau i'r cynllun archwilio yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn.

**Gwaith Dilyniant**

3.10 Rhyddhawyd memorandwm terfynol ar gyfer 16 o archwiliadau dilyniant yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2009 i 31 Mawrth 2010. Derbyniodd pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn farn "Derbyniol" neu "Rhagorol". Mae hyn yn awgrymu fod trefniadau cadarn o fewn yr awdurdod i weithredu argymhellion archwilio er mwyn cryfhau rheolaethau mewnol a rheoli risg.

## 4. ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL

### Staffio a chymhwysterau

4.1 Mae gan 4 o swyddogion yr Uned gymhwyster CIPFA llawn. Mae hyn yn cynnwys yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg, dau arweinydd tîm, ac Uwch Archwiliwr a dderbyniwyd yn aelod newydd o'r Sefydliad yn ystod 2009/10. Mae'r swyddog yma ar hyn o bryd wedi ei secondio tan Ionawr 2011 i swydd Swyddog Cefnogol Gweithredol y Prif Weithredwr. Yn ogystal â hyn mae gan yr Uwch Archwiliwr (TG) gymhwyster archwilio cyfrifiaduron ISACA.

### Y defnydd a wneir o adnoddau staff

4.2 Mae Atodiad 2 yn cynnwys dadansoddiad o ddefnydd amser swyddogion Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2010. Tynnir sylw'r Pwyllgor i'r canlynol:

- O safbwynt hyfforddiant proffesiynol, roedd Arweinydd Tîm ac Archwiliwr yn astudio am gymhwyster ACCA, yn ogystal ag Uwch Archwiliwr sydd bellach wedi ymadael â'r Cyngor.

- Bu cynnydd yn y dyddiau a gollwyd oherwydd salwch, o 34 yn 2008/09 i 164 yn 2009/10. Roedd hyn yn bennaf oherwydd cyfnodau o salwch hir-dymor dau swyddog yn ystod y flwyddyn.

- Er gwaethaf y cynnydd arwyddocaol mewn salwch, gwelwyd lleihad pellach yn yr amser a dreulwyd ar faterion "digynnyrch" eraill.

- Fel canlyniad, ac oherwydd lleihad yn yr ymrwymiad i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, gwelwyd cynnydd yng nghyfanswm nifer y dyddiau ar dreulwyd ar waith cynhyrchiol i Cyngor Gwynedd, o **1,738** diwrnod rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2009 i **1,770** diwrnod am yr un cyfnod yn 2009/10.

- Er hyn, gwelwyd fod 360 diwrnod wedi eu defnyddio yn ystod 2009/10 yn cwblhau archwiliadau'r flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn gynnydd o 100% ar y ffigwr cyfatebol flwyddyn ynghynt, sef 181. Mae hyn yn gylch sydd angen ei dorri gan ei fod yn effethio ar amseru cychwyn gwaith y flwyddyn ganlynol, ond mae'r sefyllfa yn dangos gwelliant. Rhagwelir mai oddeutu 135 diwrnod fydd y ffigwr cyfatebol yn 2010/11, ac anelir am welliant pellach mewn blynyddoedd i ddod.

## 5. PERFFORMIAD ARCHWILIO

5.1 Roedd canlyniadau dangosyddion perfformiad y gwasanaeth archwilio mewnol yn ystod 2009/10 fel a ganlyn:

| **Disgrifiad dangosydd** | **Perfformiad 2008/09** | **Targed blwyddyn 2009/10** | **Canlyniadau 2009/10** |
|---|---|---|---|
| Canran y Cynllun Archwilio a fydd yn cyfrannu at y farn yn yr Adroddiad Blynyddol | 95% | 95% | **95%** |
| % archwiliadau a gwblhawyd o fewn amser yn y cynllun ('tolerance' 10%) | 58% | 65% | **64%** |
| % o waith dilyniant sydd yn cael ei gwblhau o fewn amserlen a bennwyd ar adeg yr archwiliad gwreiddiol | 95.45% | 95% | **71%** |
| Nifer y Safonau Archwilio ble ceir cydymffurfiaeth llawn yn ôl adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r gwasanaeth | 8 llawn, 3 rhannol | 8 llawn, 3 rhannol | **8 llawn, 3 rhannol** |
| Dyddiau cynhyrchiol fel % o'r cyfanswm sydd ar gael (heb gynnwys gwyliau) | 71% | 69.2% | **69.35%** |
| Cyfran o'r adroddiadau dilyniant Archwilio Mewnol yn cyrraedd barn "Derbyniol" neu well (mesur corfforaethol) | 95.46% | 100% | **100%** |

5.2 Ni lwyddwyd i gyrraedd rhai targedau am y rhesymau canlynol:

<u>% archwiliadau a gwblhawyd o fewn amser yn y cynllun ('tolerance' 10%)</u>: y perfformiad yn welliant ar y flwyddyn flaenorol, ac ychydig iawn yn brin o'r targed erbyn diwedd y flwyddyn. Ond, er fod yr uned bron â chyrraedd y targed erbyn diwedd y flwyddyn, ni all hynny gelu'r ffaith fod perfformiad wedi bod yn brin o'r disgwyliad yn gynharach yn y flwyddyn. Mae cyflwyo trefn newydd i ddelio gyda'r amser y mae gwaith yn ei gymryd wedi ei gynnwys yng nghynlluniau personol yr Uwch Reolwr a'r arweinyddion tîm ar gyfer 2010/11.

<u>% o waith dilyniant sydd yn cael ei gwblhau o fewn amserlen a bennwyd ar adeg yr archwiliad gwreiddiol:</u> I roi'r canran yn ei gyd-destun cywir, ystyr hyn yw nad oedd memorandwm terfynol 5 archwiliad dilyniant allan o 17 wedi eu rhyddhau erbyn y dyddiad targed, sydd bob amser yn ddiwrnod olaf chwarter blwyddyn (h.y. 30 Mehefin, 30 Medi, 31 Rhagfyr, 31 Mawrth). O'r 5 yma, mae mater sydd wedi dod i'r amlwg sydd angen sylw pellach yn un ohonynt, ac felly'r gwaith yn parhau ar y gweill. Cafodd y 4 archwiliad dilyniant arall eu cwblhau o fewn ychydig wythnosau ar ôl y dyddiad targed. Fel gwelliant pellach, mae'r Uwch Reolwr nawr yn anfon nodyn i bob arweinydd tîm ar gychwyn pob chwarter i'w hatgoffa o'r gwaith dilyniant sydd i'w gwblhau yn ystod y chwarter.

## 6. CYDYMFFURFIAETH Â'R CÔD YMARFER

6.1 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn mesur Archwilio Mewnol yn erbyn gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol 2006. Adroddodd Swyddfa Archwilio Cymru ym Mehefin 2009 fod gan Cyngor Gwynedd wasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol sy'n cydymffurfio ar y cyfan â safonau y Côd Ymarfer.

6.2 Roedd adroddiad y archwiliwr allanol yn nodi fod Archwilio Mewnol wedi cyrraedd y safonau canlynol:

- Cwmpas yr Archwiliad Mewnol
- Moeseg i Archwilwyr Mewnol
- Pwyllgor Archwilio
- Cydberthnasau
- Staffio, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus
- Strategaeth Archwilio a Chynllunio
- Gofal Proffesiynol Priodol
- Cyflwyno Adroddiadau

Adroddwyd mai yn rhannol yr oedd Archwilio Mewnol yn cyrraedd y safonau canlynol:

- Annibyniaeth – *oherwydd cyfrifoldebau eraill yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn ychwangeol i Archwilio Mewnol.*
- Cyflawni gwaith archwilio – *gan na wnaeth y Cyngor gyflwyno brîff ysgrifenedig ffurfiol hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac oherwydd oediad "sylweddol" rhwng cychwyn y gwaith a chyhoeddi'r adroddiad terfynol mewn 3 achos.*
- Perfformiad, ansawdd ac effeithiolrwydd – *gan fod archwiliadau gyda statws "adroddiadau drafft" a "gwaith maes ar y gweill / wedi gwblhau" yn cael eu cynnwys ar un cyfanswm ag archwiliadau wedi "cwblhau", roedd yr archwilwr o'r farn fod perygl i'r perfformiad a adroddir gael ei gamddehongli gan Reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio.*

6.3 Roedd yr adroddiad yn cynnwys tair argymhelliad. Mae'r tabl isod yn dangos yr ymateb i'r argymhellion hyn:

| **Argymhelliad** | | **Sylwadau / Cynnydd** |
|---|---|---|
| A1 | Sicrhau bod yr ymarferiad a gyflwynir yn ddiweddar o gytuno a dosbarthu brîff ysgrifenedig i rheolwyr yn cael ei weithredu. | Roedd yr ymarferiad hwn eisioes wedi cychwyn pan wnaethpwyd yr argymhelliad, ac wedi parhau. |
| A2 | Sicrhau bod yr archwiliadau yn cael eu cwblhau mewn da bryd. | Bu oedi yn 3 o'r 4 archwiliad a ddewiswyd gan yr archwiliwr yn y sampl am amrywiol resymau, ond yn bennaf gan fod archwiliadau arbennig / ymatebol wedi ymyrryd gyda'r blaenoriaethau. Os oes oedi rhwng dechrau gwaith maes a'i gwblhau mewn achosion penodol, mae rhesymau da dros hynny. |
| A3 | Gwella adrodd y gwybodaeth perfformiad er mwyn sicrhau ei fod yn glir ac yn adlewyrchu gwir lefelau gweithgaredd. | Mae hyn ynglyn ag un dangosydd penodol, a'r angen i fod yn glir ynglyn â pryd mae archwiliad wedi ei gwblhau. Ymgeiswyd i ddelio gyda'r argymhelliad hwn trwy ail-eirio'r dangosydd penodol i "Canran y Cynllun Archwilio a fydd yn cyfrannu at y farn yn yr Adroddiad Blynyddol" o'r hyn a ddefnyddiwyd yn flaenorol, sef "Canran y Cynllun Archwilio a gwblhawyd". Fodd bynnag, mae trafodaethau gyda'r archwilwr allanol ar gyfer adolygiad 2010 yn dangos nad ydynt o'r farn fod hyn wedi bod yn ddigonol, a bydd y mater yn derbyn sylw pellach gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg a'r Pennaeth Cyllid. |

## 7. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2010/11

7.1 Cyflwynwyd cynllun archwilio mewnol drafft ar gyfer 2009/10 i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 11 Mawrth 2010. Mae'r cynllun terfynol wedi ei gynnwys yn Atodiad 3.

## 8. ARGYMHELLIAD

8.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad yma fel adroddiad blynyddol ffurfiol yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn unol â gofynion y Côd Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig.

# Cynllun Archwilio Mewnol 2009/10

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | |
| Defnydd Ymgynghorwyr | **B** | 8 Gorffennaf 2010 |
| Trefniadau eithrio o'r gyfundrefn hyfforddi gorfforaethol | **B** | 11 Mawrth 2010 |
| Fframwaith Lywodraethu Gorfforaethol | **Dim Categori** | 8 Gorffennaf 2010 |
| Cyfrannu at Ddarparu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol | **Dim Categori** | 29 Mehefin 2009 |
| Llywodraethu Corfforaethol - Adolygiad Cymharol | **Dim Categori** | 11 Mawrth 2010 |
| Rheoli Contractau - Ymweliadau Safle | **Dim Categori** | 8 Gorffennaf 2010 |
| Rheoli Contractau - Bondiau Perfformiad | **Dim Categori** | 14 Ionawr 2010 |
| Telerau Contractau a Dogfennau Tendro | **B** | 11 Mawrth 2010 |
| Rheolaeth Gyllidebol | **B** | 27 Medi 2010 |
| NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) | **Dim Categori** | |
| Trefniadau Rheolwyr Cyfrif Perfformiad | **B** | 8 Gorffennaf 2010 |
| **ADDYSG** | | |
| **Adnoddau** | | |
| Grant y Fenter Brecwastau Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd | **B** | 14 Ionawr 2010 |
| Grant Ysgolion Bro Llywodraeth Cynulliad Cymru | **B** | 28 Medi 2009 |
| Grant Trosglwyddo Rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3 | **B** | 14 Ionawr 2010 |
| Grant Gwella Adeiladau Ysgolion | **Dim Categori** | 8 Gorffennaf 2010 |
| Grant Cymorth i Benaethiaid Mewn Ysgolion Bach | **B** | 14 Ionawr 2010 |
| Grant Addysg ôl-16 | **Dim Categori** | 11 Mawrth 2010 |
| Gweinyddu Grantiau a Benthyciadau Myfyrwyr | **B** | 27 Medi 2010 |
| **Disgyblion a chynhwysiad** | | |
| Integreiddio | **B** | 8 Gorffennaf 2010 |
| **Ysgolion** | | |
| Ysgolion Cynradd - Trefniadau Recriwtio Staff Ategol ac Athrawon Llanw | **C** | 11 Mawrth 2010 |
| Ôl-ddyledion Arian cinio, Ysgolion Cynradd | **C** | 8 Gorffennaf 2010 |
| Cronfeydd Answyddogol | **B** | 14 Ionawr 2010 |
| Ysgol Brynrefail | **A** | 8 Gorffennaf 2010 |
| Ysgol Y Gader | **B** | 8 Gorffennaf 2010 |
| Ysgol Syr Hugh Owen | **B** | 8 Gorffennaf 2010 |
| Ysgol Pendalar | **B** | 27 Medi 2010 |
| Ysgol Hafod Lon | **B** | 8 Gorffennaf 2010 |
| **ADNODDAU DYNOL** | | |
| **Iechyd a Diogelwch** | | |
| Archwiliadau Iechyd a diogelwch | **B** | 27 Medi 2010 |
| **CYLLID** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| Trwyddedau Systemau Cyllid | **A** | 8 Gorffennaf 2010 |
| **Ariannol** | | |
| Rheolaeth Sieciau | **B** | 14 Ionawr 2010 |
| **Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys** | | |

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| Rheolaeth Trysorlys | **B** | 11 Mawrth 2010 |
| **Cyfrifeg** | | |
| Addysg All-Sirol - Trefniadau Anfonebu | **B** | 11 Mawrth 2010 |
| Tendr Bancio | **Dim Categori** | 8 Gorffennaf 2010 |
| Dychweliadau Treth | **A** | 8 Gorffennaf 2010 |
| Praeseptau | **A** | 11 Mawrth 2010 |
| Cysoni Banc | **A** | 11 Mawrth 2010 |
| **Pensiynau a Chyflogau** | | |
| Profion CAATs ar y System Cyflogau | **Dim Categori** | 8 Gorffennaf 2010 |
| Pensiynwyr Newydd | **B** | 8 Gorffennaf 2010 |
| Pensiynau - Trosglwyddiadau i Mewn ac Allan ac Ad-daliadau | **B** | 8 Gorffennaf 2010 |
| Grantiau Marwolaeth | **B** | 8 Gorffennaf 2010 |
| **Refeniw** | | |
| System Treth Cyngor - Fformiwlau ac Algorithmau | **A** | 8 Gorffennaf 2010 |
| Trethiant Lleol - Cytundeb Argraffu | **B** | 11 Mawrth 2010 |
| Treth Di-Annedd - Rhestr Brisio | **B** | 8 Gorffennaf 2010 |
| **DARPARU A HAMDDEN** | | |
| **Hamdden** | | |
| Pwll Nofio Bangor | **B** | 14 Ionawr 2010 |
| Canolfan Hamdden Plas Ffrancon | **C** | 14 Ionawr 2010 |
| Canolfan Hamdden Dwyfor | **B** | 14 Ionawr 2010 |
| Canolfan Hamdden Bro Dysynni | **B** | 14 Ionawr 2010 |
| **Preswyl a Dydd** | | |
| Plas Maesincla, Caernarfon | **B** | 14 Ionawr 2010 |
| Plas y Don, Pwllheli | **B** | 11 Mawrth 2010 |
| Plas Hedd, Bangor | **B** | 14 Ionawr 2010 |
| Cefn Rodyn, Dolgellau | **C** | 28 Medi 2009 |
| Arian Personol Preswylwyr Cartrefi | **B** | 8 Gorffennaf 2010 |
| Cartrefi Preswyl - Cronfeydd Answyddogol | **B** | 27 Medi 2010 |
| Bryn Afon | **C** | 27 Medi 2010 |
| **DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL** | | |
| **Cofrestru** | | |
| Trefniadau Etholiadau | **B** | 8 Gorffennaf 2010 |
| Trefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau | **C** | 8 Gorffennaf 2010 |
| **Democratiaeth** | | |
| Hyfforddi Aelodau | **B** | 8 Gorffennaf 2010 |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | |
| **Morwrol a Pharciau Gwledig** | | |
| Yr Hafan, Pwllheli | **B** | 11 Mawrth 2010 |
| Gwasanaeth Morwrol | **B** | 11 Mawrth 2010 |
| **Strategaeth a Datblygu** | | |
| Cyfrifon Terfynol: Uned Adfywio | **Dim Categori** | |
| **GOFAL CWSMER** | | |
| **Cynllunio Argyfwng** | | |
| Cynllunio Argyfwng a Pharhad Busnes | **B** | 8 Gorffennaf 2010 |

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| **Technoleg Gwybodaeth** | | |
| Monitro Amddiffynnol | **B** | 8 Gorffennaf 2010 |
| Rheolaeth Asedau Caledwedd | **B** | 8 Gorffennaf 2010 |
| Trefniadau archebu Nwyddau TG | **Dim Categori** | 14 Ionawr 2010 |
| Cydymffurfiaeth gyda gofynion CoCo (Rhan 1) | **B** | 11 Mawrth 2010 |
| Cydymffurfiaeth gyda gofynion CoCo (Rhan 2) | **C** | 27 Medi 2010 |
| Trosglwyddo Data Stoc Tai | **B** | 8 Gorffennaf 2010 |
| Rheolaeth Cyfrifon Defnyddwyr | **Dim Categori** | 14 Ionawr 2010 |
| **GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| Casglu Data Gwasanaethau Cymdeithasol at bwrpasau Rheoli Perfformiad | **C** | 11 Mawrth 2010 |
| Patrymau Gwariant Gwasanaethau Anabledd Dysgu | **Dim Categori** | 27 Medi 2010 |
| Uned Hawliau Lles | **B** | 8 Gorffennaf 2010 |
| Prosiect RAISE | **Dim Categori** | 8 Gorffennaf 2010 |
| **Busnes** | | |
| Contractau a Gwariant Gwasanaethau Cymdeithasol (Cynllun Gweithredu Adolygiad ar y Cyd) | **B** | 8 Gorffennaf 2010 |
| **Oedolion** | | |
| Taliadau i Gartrefi Preswyl Annibynnol | **B** | 8 Gorffennaf 2010 |
| **Plant a Theuluoedd** | | |
| Plant - Basdata Gweithwyr Asiantaeth (Cynllun 3 blynedd) | **Dim Categori** | 8 Gorffennaf 2010 |
| System Cynllunio Dyfodol Plant a Phobl Ifanc Mewn Gofal (Cynllun 3 blynedd) | **C** | 8 Gorffennaf 2010 |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| Trefniadau Cyllidebu Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru | **Dim Categori** | 8 Gorffennaf 2010 |
| **Fflyd** | | |
| Diogelwch Asedau a Storfeydd | **B** | 8 Gorffennaf 2010 |
| Rheolaeth Fflyd | **B** | 27 Medi 2010 |
| **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | | |
| Strategaeth Gwastraff | **Dim Categori** | |
| Safleoedd Gwastraff Ailgylchu | **B** | 11 Mawrth 2010 |
| **RHEOLEIDDIO (CYNLLUNIO, TRAFNIDIAETH A GWARCHOD Y CYHOE** | | |
| **Amgylchedd** | | |
| Llwybrau Cyhoeddus | **B** | 14 Ionawr 2010 |
| **Cynllunio** | | |
| Cytundebau Adran 106 | **B** | 8 Gorffennaf 2010 |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | |
| Gwarchod y Cyhoedd - Defnydd Flare; Rheoli Gwaith | **B** | 27 Medi 2010 |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | |
| Gorchmynion Ffyrdd | **C** | 27 Medi 2010 |
| **STRATEGOL A GWELLA** | | |
| **Caffael ac Effeithlonrwydd** | | |
| Partneriaeth Gaffael Gogledd Cymru | **B** | 27 Medi 2010 |
| **Cyfeiriad Strategol** | | |
| Grant Annibyniaeth a Lles | **A** | 14 Ionawr 2010 |

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| **TAI** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| Cymunedau o Angen - gwyriadau ac ymyrraeth (Cynllun 3 blynedd) | **Dim Categori** | 8 Gorffennaf 2010 |
| **Cefnogi Pobl** | | |
| Cefnogi Pobl | **A** | 11 Mawrth 2010 |
| **Cynnal a Chadw Tai** | | |
| Cyfrifon Terfynol: Tai | **Dim Categori** | |
| Contractau Cyfredol: Tai | **Dim Categori** | |
| **Rhent a Rheolaeth Tai** | | |
| Cynllun Warden Stâd | **B** | 11 Mawrth 2010 |
| Trefniadau Trosglwyddo'r Stoc Dai - Rheoli Prosiect | **Dim Categori** | 14 Ionawr 2010 |
| Trefniadau Trosglwyddo'r Stoc Dai - Stociau a Storfeydd | **Dim Categori** | 8 Gorffennaf 2010 |
| **Tai Sector Breifat** | | |
| Addasiadau Lles: Monitro, Rheolaeth a Gorfodaeth | **B** | 8 Gorffennaf 2010 |
| Partneriaeth Gwella Tai - "Houseproud" | **B** | 14 Ionawr 2010 |
| Trefniadau dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd (Cynllun 3 blynedd) | **B** | 8 Gorffennaf 2010 |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | |
| **Adeiladau ac Amgylcheddol** | | |
| Gwasanaethau Adeiladu - Blaenoriaethu Gwaith | **B** | 8 Gorffennaf 2010 |
| **Ar draws yr adran** | | |
| Cynllun Gorsaf Rheilffordd Bangor | **Dim Categori** | 28 Medi 2009 |
| Cyfrifon Terfynol: Ymgynghoriaeth Gwynedd | **Dim Categori** | |
| **Peirianneg a Rheolaeth Adeiladu** | | |
| Contractau Peirianneg - Sgorio PQQ | **Dim Categori** | 8 Gorffennaf 2010 |

**Crynodeb o nifer yr adroddiadau ym mhob categori barn, Cynllun 2009/10:**

| | Nifer archwiliadau |
|---|---|
| A | **8** |
| B | **57** |
| C | **10** |
| Dim Categori | **26** |
| **Cyfanswm** | **101** |

**Dadansoddiad Amser Archwilio Mewnol 1 Ebrill 2009 - 31 Mawrth 2010:**

| 2008/09 | | 2009/10 |
|---|---|---|
| **2,952** | **Cyfanswm Dyddiau** | **3,039** |
| 412 | Llai Gwyliau (Statudol ac Anstatudol) | 437 |
| **2,540** | **Cyfanswm y Dyddiau Ar Gael** | **2,602** |
| | Llai: | |
| 22 | Gwyliau Arbennig | 48 |
| 34 | Salwch | 164 |
| 22 | Hyfforddiant Proffesiynol | 39 |
| 116 | Hyfforddiant Swydd | 61 |
| **2,346** | **Dyddiau ar gael** | **2,290** |
| | Llai Amser Di-gynnyrch: | |
| 14 | Adolygu Perfformiad (Gwerthuso) | 12 |
| 14 | Apwyntiadau Meddygol | 11 |
| 113 | Cyfarfodydd a Phwyllgorau | 102 |
| 4 | Cyfarfodydd-Gwaith ar y cyd a SAC | 3 |
| 11 | Cyflwyno Hyfforddiant | 8 |
| 4 | Cynnal Cyfweliadau | 2 |
| 52 | Gwaith Cefndirol | 62 |
| 36 | Gweinyddiaeth ayb. | 46 |
| 17 | Pwyllgor Archwilio | 16 |
| 180 | Rheolaeth Archwilio Mewnol | 127 |
| 6 | Rheoli Absenoldebau | 6 |
| 38 | Sustem Cofnodi Amser | 34 |
| 6 | Teithio na ellir mo'i ddosrannu | 0 |
| 11 | Trafferthion TG | 5 |
| 1 | Ymarferiadau Tân | 1 |
| 40 | Llai: gwaith rheolaethol arall (Uwch Reolwr) | 51 |
| **1,799** | **Cyfanswm Dyddiau Cynhyrchiol** | **1,804** |
| 61 | Gwaith APCE | 34 |
| **1,738** | **Cyfanswm dyddiau cynhychiol, Cyngor Gwynedd** | **1,770** |

**Dadansoddiad o ddefnydd dyddiau cynhyrchiol Cyngor Gwynedd:**

| 2008/09 | Math o waith | 2009/10 |
|---|---|---|
| 1,286 | Gwaith Cynllun blwyddyn gyfredol | 1,137 |
| 181 | Cwblhau gwaith blwyddyn flaenorol | 360 |
| 67 | Cynghori | 57 |
| 93 | Gwaith dilyniant | 76 |
| 111 | Gwaith Ymatebol/Archwiliadau Arbennig | 140 |
| **1,738** | | **1,770** |

# Cynllun Archwilio Mewnol 2010/11

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | |
| | Rheolaeth Ffonau Symudol | **20.00** |
| | Defnydd Ynni | **20.00** |
| | Trefniadau Adolygu Perfformiad Staff - Gwerthuso | **20.00** |
| | Rheolaeth fflecsi-TOIL-gweithio o gartref | **25.00** |
| | Trefniadau Datgelu - Ymwybyddiaeth o'r Polisi Canu'r Gloch | **15.00** |
| | Cyfrannu at Ddarparu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol | **20.00** |
| | Trefniadau Atal Twyll - "Llyfr Coch" CIPFA | **20.00** |
| | Gwaredu Gwastraff Cyfrinachol | **10.00** |
| | Amseriad cychwyn gwaith ac arwyddo-selio contractau | **10.00** |
| | System e-Dendro | **15.00** |
| | Grantiau (Grwp Amgylchedd) | **30.00** |
| | Prydlondeb Talu Anfonebau | **20.00** |
| | NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) | **40.00** |
| | Gwirio Dangosyddion Perfformiad | **30.00** |
| | Arbedion Effeithlonrwydd | **20.00** |
| **ADDYSG** | | |
| **Adnoddau** | | |
| | Grantiau Addysg - Estyniad Rhaglen Ddatblygu'r Llywodraeth ar gyfer Asesu Dysgu | **5.00** |
| | Grant y Fenter Brecwastau Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd | **10.00** |
| | Grant Ysgolion Bro Llywodraeth Cynulliad Cymru | **6.00** |
| | Grant Datgloi Potensial | **6.00** |
| | Grant Addysg ôl-16 | **1.50** |
| | Unedau Iaith | **15.00** |
| **Ysgolion** | | |
| | Ysgol Dyffryn Ogwen | **12.00** |
| | Ysgol Botwnnog | **11.00** |
| | Ysgol Dyffryn Nantlle | **12.00** |
| | Ysgol Eifionydd | **11.00** |
| | Ysgol Uwchradd Tywyn | **11.00** |
| | Ysgol y Berwyn | **12.00** |
| | Ysgol Ardudwy | **11.00** |
| | Ysgol Friars | **12.00** |
| | Ysgol Tryfan | **12.00** |
| | Ysgol Glan Y Mor | **11.00** |
| | Ysgol Coed Menai | **11.00** |
| **ADNODDAU DYNOL** | | |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| **Cefnogol** | | |
| | Trefn Archebu Gwestai | **10.00** |
| **Iechyd a Diogelwch** | | |
| | Iechyd a Diogelwch - y "fflyd lwyd" | **20.00** |
| | Iechyd a diogelwch - tripiau ysgol | **25.00** |
| **Uned Cefnogol** | | |
| | Gwirio Rhestrau Gweithwyr | **10.00** |
| **CYLLID** | | |
| **Cyfrifeg** | | |
| | Tendr Bancio | **10.00** |
| | Cyfrifeg Cyfalaf | **20.00** |
| | Paratoadau ar gyfer IFRS - Trefniadau Prosiect | **6.00** |
| | Paratoadau ar gyfer IFRS - Buddiannau Gweithwyr | **8.00** |
| | Paratoadau ar gyfer IFRS - Prydlesi | **8.00** |
| | Paratoadau ar gyfer IFRS - Asedau | **8.00** |
| **Pensiynau a Chyflogau** | | |
| | Gweithredu Newidiadau Cyflog | **15.00** |
| | System Personel-Cyflogau Newydd | **5.00** |
| | Pensiynau - Cyfraniadau gan gyflogwyr | **30.00** |
| **Refeniw** | | |
| | Trefniadau derbyn arian | **15.00** |
| | Gwaredu cyfarpar y cyn-swyddfeydd arian | **5.00** |
| | System Budd-daliadau - Rheoli Gwybodaeth a Chyfrifiadau | **30.00** |
| | Taliadau budd-dal yn dilyn trosglwyddiad y stoc dai | **15.00** |
| **DARPARU A HAMDDEN** | | |
| **Cefnogaeth Busnes a Gweinyddiaeth** | | |
| | System Rheolaeth Gofal Cartref | **25.00** |
| **Gofal Cymunedol** | | |
| | Ailalluogi Gofal Cartref | **20.00** |
| **Hamdden** | | |
| | Canolfan Hamdden Plas Silyn | **10.00** |
| | Canolfan Hamdden Glaslyn | **10.00** |
| | Canolfan Hamdden y Pafiliwn | **10.00** |
| | Neuadd Chwaraeon Bro Ffestiniog | **10.00** |
| | Canolfan Hamdden Glan Wnion | **8.00** |
| **Preswyl a Dydd** | | |
| | Gweinyddu Meddyginiaeth yng nghartrefi'r Cyngor | **25.00** |
| **DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL** | | |
| **Cofrestru** | | |
| | Gweinyddu'r Gofrestr Etholiadol | **10.00** |
| | Chwiliadau a Phridiannau Tir | **15.00** |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| **Democratiaeth** | | |
| | Yr Argraffdy | **15.00** |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | |
| **Adfywio Cymunedol** | | |
| | Cist Gwynedd | **10.00** |
| **Hyfforddiant Gwynedd** | | |
| | Trefniadau Trosglwyddo Hyfforddiant Gwynedd | **10.00** |
| **Morwrol a Pharciau Gwledig** | | |
| | Parciau Gwledig | **10.00** |
| **Sgiliau a mentergarwch** | | |
| | Llwyddo'n Lleol | **20.00** |
| **Strategaeth a Datblygu** | | |
| | Prosiectau Cynllun Datblygu Gwledig Cymru | **20.00** |
| **Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer** | | |
| | Digwyddiadau | **18.00** |
| **GOFAL CWSMER** | | |
| **Cyfathrebu** | | |
| | Diweddaru'r wefan a'r safle mewnrwyd | **15.00** |
| **Cyswllt Cwsmer** | | |
| | Canolfan Gyswllt Galw Gwynedd | **15.00** |
| **Gwybodaeth** | | |
| | Deddf Diogelu Data - Teledu Cylch Cyfyng | **10.00** |
| | Uned Rheoli Cofnodion | **10.00** |
| **Technoleg Gwybodaeth** | | |
| | Rheolaeth Dyfeisiadau | **15.00** |
| | Defnyddwyr Rhwydwaith Trydydd Parti | **15.00** |
| | Gweithio Symudol a Diogelwch y Perimedr | **15.00** |
| | Cytundebau Escrow | **25.00** |
| | Contractau TGCh | **10.00** |
| **Tir ac Eiddo'r Cyngor** | | |
| | Rheolaeth Asbestos | **10.00** |
| **GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| | Trefniadau Rheoli Ansawdd | **20.00** |
| | Trefniadau Argyfwng Gwasanaethau Cymdeithasol | **15.00** |
| | Strategaeth Gofalwyr | **20.00** |
| | Rheoli Data a Chomisiynu | **14.00** |
| | Cyllidebu Datganoledig | **25.00** |
| | Gweinyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol | **20.00** |
| | Adroddiad Blynddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol | **10.00** |
| | Cyllid Cleientau ac "Appointeeships" | **20.00** |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| **Oedolion** | | |
| | Anabledd Dysgu - Rheoli Prosiect | **25.00** |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| | Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru | **20.00** |
| **Gwaith Bwrdeistrefol** | | |
| | "Amgylchedd o Ansawdd" | **20.00** |
| **Gwaith Priffyrdd** | | |
| | Cytundeb Fframwaith Cynnal Ffyrdd | **25.00** |
| | Cyflwr Ffyrdd - Archwiliadau a chwynion y cyhoedd | **15.00** |
| **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | | |
| | Costau Toiledau Cyhoeddus | **7.50** |
| | Strategaeth Gwastraff | **20.00** |
| **RHEOLEIDDIO (CYNLLUNIO, TRAFNIDIAETH A GWARCHOD Y CYHOEDD)** | | |
| **Amgylchedd** | | |
| | Gwasanaeth Amgylcheddol - darpariaeth ar y cyd | **20.00** |
| **Cynllunio** | | |
| | Cynllunio - cyfeirio i'r Pwyllgor Cynllunio Canolog | **10.00** |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | |
| | Trwyddedau Tacsis | **20.00** |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | |
| | Uned Cludiant Integredig | **25.00** |
| **STRATEGOL A GWELLA** | | |
| **Caffael ac Effeithlonrwydd** | | |
| | Caffael Cynaladwy (Cynllun 3-blynedd) | **20.00** |
| | Prosiect e-Gaffael | **20.00** |
| **Cyfeiriad Strategol** | | |
| | Grantiau: Corfforaethol | **35.00** |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| | Cyfrifon Terfynol: Ymgynghoriaeth Gwynedd | **5.00** |
| | Ymgynghoriaeth Gwynedd - Dethol Contractwyr | **15.00** |
| | | **1,557.00** |